The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Deddf Cynllunio 2008 – Adran 91 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefnau Archwilio) 2010 – Rheol 14**

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

**Agenda a threfniadau ar gyfer y Gwrandawiad Mater Penodol ar Faterion Amgylcheddol**

Yn ei lythyr dyddiedig 27 Mawrth 2023, rhoddodd yr Awdurdod Archwilio (ExA) wybod i Bartïon â Buddiant (IP) am ei benderfyniad i gynnal Gwrandawiad Mater Penodol ar Faterion Amgylcheddol ynglŷn â'r mater uchod. Fe'i cynhelir fel digwyddiad cyfunol ar y dyddiad canlynol:

| Gwrandawiad | Dyddiad ac Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Gwrandawiad Mater Penodol ar Faterion Amgylcheddol (ISH1) | Dydd Mawrth 6 Mehefin 2023<br>(Amser dechrau'r cyfarfod 10.00am[1])<br>Amser dechrau'r Gynhadledd Drefniadau: 9.30am[2] | Digwyddiad Cyfunol Gwesty'r Village, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3YB<br>a Chyfarfod Rhithwir Cyfunol trwy Microsoft Teams |

Mynychwyr: Partïon a wahoddwyd sydd wedi cofrestru o flaen llaw

(Bydd y Gwrandawiad hwn ar gael i bobl ei arsylwi'n fyw ar-lein hefyd trwy ddolen a fydd yn cael ei hysbysebu ar dudalen y prosiect ar y wefan Seilwaith Cenedlaethol yn fuan cyn i'r Gwrandawiad ddechrau).

**Gwrandawiadau Mater Penodol**

Bydd y Gwrandawiad yn ddigwyddiad cyfunol, a'r prif ddull o'i gynnal fydd wyneb yn wyneb yn y lleoliad a nodwyd uchod. Caiff cyfranogwyr ymuno ar-lein os dymunant gan ddefnyddio platfform Microsoft Teams. Fodd bynnag, os hoffech gymryd rhan yn y Gwrandawiad hwn yn rhithwir, gweler y wybodaeth isod am gofrestru i siarad cyn y Gwrandawiad er mwyn i wahoddiadau ymuno gael eu hanfon. Os hoffech arsylwi yn unig, caiff arsylwyr fynychu'n bersonol neu wylio o bell trwy'r ffrwd fyw o'r digwyddiad, y bydd y ddolen ar ei chyfer yn cael ei chyhoeddi ar dudalen y prosiect ar y wefan Seilwaith Cenedlaethol ar ddiwrnod y Gwrandawiad. Ni fydd yr Awdurdod

[1] Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi cyn y cyfarfod i'r rhai sy'n cofrestru i gymryd rhan.
[2] Os byddwch yn ymuno fel cyfranogwr gweithredol, dilynwch y cyfarwyddiadau ymuno ar gyfer y digwyddiad rhithwir yn ofalus a chysylltwch â'r Gwrandawiad mewn da bryd. Yn yr un modd â Gwrandawiadau traddodiadol, bydd y digwyddiad yn dechrau'n brydlon ni waeth os bydd rhywrai'n hwyr, ac efallai na fydd modd iddynt gael mynediad o ganlyniad.

Archwilio yn derbyn sylwadau yn y Gwrandawiad ar ffurf recordiadau fideo neu sain.

Bydd y digwyddiad rhithwir yn agor 30 munud cyn i'r Gwrandawiad ddechrau i'w alluogi i ddechrau'n brydlon. Bydd y Gwrandawiad yn gorffen cyn gynted ag y bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried bod pawb sy'n bresennol wedi lleisio'u barn a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw.

Diben yr agenda yw rhoi arweiniad yn unig. Ni fwriedir iddi fod yn gyfyngol nac yn hollgynhwysfawr. Caiff yr ExA ychwanegu materion eraill i'w hystyried neu newid y drefn yr ystyrir materion, a bydd yn ceisio neilltuo digon o amser i bob mater i ganiatáu iddo gael ei ystyried yn briodol. Os na fydd mater penodol yn cael ei drafod mewn gwrandawiad, nid yw hynny'n atal archwilio'r mater hwn ymhellach, gan gynnwys gofyn am gwestiynau ysgrifenedig ychwanegol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y materion yn cael eu trafod ar y diwrnod a drefnwyd. Os bydd yn cymryd llai o amser na'r disgwyl i ystyried y materion hyn, caiff yr ExA derfynu'r Gwrandawiad cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi cael eu gwneud a'r holl gwestiynau wedi cael eu gofyn a derbyn ymateb.

Os oes materion ychwanegol i'w hystyried neu gyflwyniadau sy'n cymryd cryn dipyn o amser, efallai y bydd angen i'r sesiwn barhau'n hirach ar y diwrnod. Fel arall, efallai y bydd angen blaenoriaethu materion a gohirio rhai eraill i dderbyn sylw trwy gwestiynau ysgrifenedig ychwanegol.

**Mynychwyr:**

**Mae'r ExA yn gofyn i'r mynychwyr canlynol gymryd rhan yn ISH1:**

- Liverpool Bay CCS Limited (yr Ymgeisydd) – gan gynnwys cynrychiolwyr yr Ymgeisydd sydd mewn sefyllfa i drafod y materion ar yr agenda;
- Cyngor Sir y Fflint (FCC);
- Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWCC);
- Asiantaeth yr Amgylchedd (EA);
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC); a
- Natural England.

Gall y rhai hynny nad ydynt yn mynychu ISH1 wylio'r ffrwd fyw neu'r recordiad digidol ac ymateb i unrhyw faterion sy'n codi yn ysgrifenedig erbyn Terfyn Amser 4 (dydd Mawrth 20 Mehefin 2023).

## Diben

Prif ddiben ISH1 yw archwilio pynciau penodol, gan gynnwys materion sy'n codi o ddogfennau'r cais a sylwadau yn ymwneud â'r canlynol:

- yr asesiad o ddewisiadau amgen a materion trawsbynciol;
- buddiannau bioamrywiaeth, gan gynnwys gwella bioamrywiaeth;
- effeithiau ar goed;

- materion sy’n gysylltiedig â’r amgylchedd dŵr/ y dirwedd/ dylunio; ac effeithiau adeiladu eraill.

**Trefniadau wrth gefn**

Bydd yr ExA yn ceisio clywed yr holl gyfranogwyr. Os na fydd y Gwrandawiad, neu rannau ohono, yn gallu symud ymlaen, er enghraifft am resymau technegol, gallai’r ExA ei ohirio er mwyn i unrhyw fusnes anghyflawn dderbyn sylw mewn gwrandawiadau neu sylwadau ysgrifenedig yn ddiweddarach yn Amserlen yr Archwiliad. Hysbysir am unrhyw ohiriadau ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

**Sylwer:** Er mwyn sicrhau bod yr agenda’n cael ei chyhoeddi’n brydlon, cafodd ei llunio’n fuan ar ôl derbyn cyflwyniadau Terfyn Amser 2 (10 Mai 2023). O ganlyniad, efallai y bydd angen i’r ExA addasu’r agenda yn y cyfarfod i ganiatáu ar gyfer ymatebion neu gyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd ar ôl y terfyn amser hwn.

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Agenda**

**Teitl y Cyfarfod** Gwrandawiad Materion Amgylcheddol (ISH1)
**Dyddiad** Dydd Mawrth 6 Mehefin 2023 **Amser** 10:00
**Lleoliad** Gwesty'r Village, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3YB a Chyfarfod Rhithwir Cyfunol trwy Microsoft Teams yn Rhithwir trwy Microsoft Teams
**Mynychwyr** Gwahoddedigion

Prif ddiben ISH1 yw:

- Ystyried effeithiau amgylcheddol y datblygiad a darpariaethau cysylltiedig yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO);
- Ystyried p'un a fyddai'r gofynion sy'n ymwneud â'r diben y gallai caniatâd gael ei roi ar ei gyfer yn cael eu bodloni;
- Clywed safbwyntiau'r ymgeisydd/unigolion eraill perthnasol ynglŷn â materion technegol penodol.

**1. Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawiad**

**2. Asesiad o Ddewisiadau Amgen a Materion Trawsbynciol**

- Gwahoddir yr Ymgeisydd i roi cyflwyniad/ trosolwg/ amlinelliad byr o'r cais mewn perthynas â'r angen cyffredinol amdano, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac asesu effeithiau cronnol, i osod y cyd-destun ar gyfer y drafodaeth.

*Dewisiadau amgen*

- Gofynnir i'r Ymgeisydd sôn am y dewisiadau amgen perthnasol a lywiodd y llwybr a ffefrir.
- Ychydig o drafodaeth a chwestiynau ynglŷn â chwmpas a hyd a lled y dewisiadau amgen a ystyriwyd gan bwyso a mesur sylwadau. Y rhesymau penodol dros ddiystyru dewisiadau amgen eraill yn berthynol i gynigion cynllun y cais.

*Effeithiau cronnol*

- Cydnabod yr ystyriaethau cronnol a godwyd gan CWCC ar gyfer datblygiadau eraill.

**3. Bioamrywiaeth**

*Budd Net/Gwella Bioamrywiaeth*

- Gofynnir i'r Ymgeisydd amlinellu'n fyr ei sefyllfa fwyaf cyfredol o ran hwyluso Budd Net Bioamrywiaeth (BNG) a gwelliannau/buddiannau o ystyried polisi lleol a chenedlaethol a'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol.

- Priodoldeb y cyfrifiad BNG a gynhaliwyd ar gynefinoedd blaenoriaeth yn unig (yn hytrach na phob cynefin). Gwahoddir safbwyntiau gan CWCC ac FCC ar BNG/gwelliannau.
- Trafodaeth/cwestiynau, gan gynnwys perthnasedd 'Rhwydwaith Ecolegol CWCC' mewn unrhyw gyfrifiad presennol gan gyfeirio at welliant cyffredinol a ph'un a yw'r cynllun yn cyflawni budd net/gwelliant neu fudd ar hyn o bryd.
- Goblygiadau/opsiynau strategaethau lleol eraill ehangach sydd ar gael.

*Cysylltedd cynefinoedd*

- CWCC i esbonio 'cysylltiadau cynefinoedd' yn berthnasol i gefnogi 'Rhwydwaith Ecolegol Gorllewin Swydd Gaer a Chaer' y cyfeirir ato yng Nghynllun Lleol Gorllewin Swydd Gaer a Chaer Rhan 2 Polisi DM44, yn ogystal â'r amcanion polisi.
- Gwahoddir FCC i esbonio rôl a nodau polisi cynllun lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar (mis Ionawr 2023) yn ogystal â strategaeth arall ddiweddar.
- Trafodaeth/ cwestiynau ynglŷn â sut mae'r datblygiad yn ceisio mynd i'r afael â chysylltedd cynefinoedd, o ystyried polisi lleol a chenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr (PPW11), ochr yn ochr â'r dyletswyddau a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) a deddfwriaeth arall berthnasol.

*Arolygon*

- Yr Ymgeisydd i roi trosolwg o'r arolygon bioamrywiaeth, gan gynnwys y strategaeth/hyd a lled sy'n sail iddynt.
- Trafodaeth/cwestiynau ynglŷn â ph'un a oes cyfiawnhad i arolygon y tu hwnt i derfynau'r DCO ar gyfer Tylluanod Gwynion a Moch Daear o ystyried cyngor ymgyngoreion.
- Eglurhad ynglŷn â'r strategaeth arolygu ar gyfer derbynyddion bywyd gwyllt gan gynnwys tylluanod gwynion, adar, pysgod a moch daear. Pellteroedd sylfaenol aflonyddu ecolegol.
- Cwmpas a hyd a lled arolygon ynglŷn ag Ystlumod a mamaliaid Glannau Afon.
- P'un a oes angen arolwg ychwanegol ar gyfer yr amgylchedd dyfrol.
- Amlinelliad o ymrwymiadau'r ymgeisydd ar gyfer unrhyw waith arolygu ychwanegol (lle y bo'n berthnasol). Yr amserlen debygol os bwriedir ychwanegu gwybodaeth bellach at ddogfennau'r archwiliad.
- Cydnabyddiaeth ehangach ac ymateb yr Ymgeisydd i unrhyw anghysondeb posibl mewn data ecolegol, anghenion gwybodaeth ychwanegol a gofynion ymgynghori lleol.

**4. Coed**

- Yr Ymgeisydd i egluro'n fyr y sefyllfa fwyaf cyfredol ynglŷn â pha goed y byddai effaith arnynt, a rhifau'r lleiniau/yr ardaloedd y cyfeirir atynt. Y coed y bwriedir eu symud ymaith a'r rhai hynny y bwriedir eu cadw, gan gynnwys unrhyw goetir hynafol neu goed hynod y bwriedir eu symud ymaith, eu difrodi neu eu colli.

- Gofynnir i'r Ymgeisydd hefyd ailddatgan y camau a gymerwyd yn nyluniad y cynllun i osgoi colli coed, gan gydnabod y broses ailadroddol sy'n gysylltiedig.
- Gwahoddir FCC/CWCC i grynhoi eu hymatebion/safbwyntiau ynglŷn â materion cysylltiedig â choed.
- Trafod dewisiadau posibl i gynnwys neu eithrio effeithiau ecolegol yn sgil colli coed yn barhaol o fewn yr ardal gwahardd plannu dros y biblinell a'r effeithiau canlyniadol ar gysylltedd rhwng Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol a chynefinoedd.
- Y cynefinoedd cydbwyso sy'n bosibl o fewn y 'Rhwydwaith Ecolegol' ac mewn mannau eraill.

*Mesurau lliniaru a monitro ecolegol/coed cyffredinol*

- Ystyriaethau/cwestiynau ynglŷn â'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol y Dirwedd Amlinellol (OLEMP), gan gynnwys egluro ystyr amnewid coetir 3 am 1 yn hytrach nag ardal.
- Digonoldeb y Gofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymiadau Amgylcheddol (REAC) a thrafod y cyfle i ymgorffori unrhyw strategaeth arolygu, adrodd a monitro ychwanegol.
- Ystyried unrhyw addasiadau i'r OLEMP a'r REAC neu ofynion (os oes angen).

**5. Yr Amgylchedd Dŵr/ y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)/ Perygl Llifogydd/ Datgomisiynu/ Materion Tirwedd a Dylunio/ Ymatebion eraill i Gwestiynau Ysgrifenedig 1 yr ExA (os oes angen)**

*WFD/Perygl Llifogydd/Datgomisiynu*

- CNC i esbonio/gofynnir i'r Ymgeisydd grynhoi pryderon WFD a dderbyniwyd hyd yma a'r ystod o ddatrysiadau sydd ar gael.
- Trafod croesfan toriad agored Nant Alltami fel llwybr posibl i golli dŵr wyneb i'r tir/gweithfeydd mwynau halogedig; cyrsiau dŵr yn sychu i lawr yr afon/dirywiad corff dŵr Nant Gwepra.
- Rheoli perygl llifogydd. Manylion croesi Nant Alltami – y cyfle i gynnwys pont bibell wedi'i gorchuddio a sut y byddai'n cael ei sicrhau'n ffurfiol.
- Yr effeithiau posibl ar ffynhonnau cyflenwad dŵr preifat (saith o leiaf) a gyflwynwyd ym Mhennod 18 y Datganiad Amgylcheddol.
- I ba raddau y gallai dad-ddyfrio cloddiadau ryngweithio â safleoedd tirlenwi, iard sborion a gorsaf betrol.
- Trafod safbwyntiau EA o ystyried yr WFD a ph'un a yw'r cynigion datgomisiynu'n dderbyniol heb wneud gwaith ychwanegol i ymchwilio / asesu'r tir. Mae EA yn argymell y bydd gwaith ychwanegol i ymchwilio ac asesu'r tir yn berthnasol wrth bennu'r angen am waith adfer penodol i safle.

*Tirwedd/Dylunio*

- Yr Ymgeisydd i roi disgrifiad byr o unrhyw fesurau dylunio da sydd wedi'u cynnwys yn nyluniad y cynllun ar gyfer agweddau uwchben y tir o ystyried eu swyddogaeth.
- Trafod y cyfle i wella estheteg y cynllun, lle y bo'n bosibl.

- Lleoliad Gorsaf Falfiau Bloc Aston Hill a'r ddarpariaeth bolisi leol y cyfeiriwyd ati gan FCC.
- Unrhyw drafodaeth arall a ganiateir gan yr ExA ynglŷn ag ymatebion nad yw'r pynciau uchod yn mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys darpariaeth diogelu mwynau.

*Budd cymunedol*

- Gofynnir i FCC grynhoi ei safbwyntiau hyd yma gyda rhai cwestiynau gan yr ExA.

**6. Unrhyw Fater Arall**

**7. Pwyntiau Gweithredu a Chau**